... ac Ati – Gorffennaf 2011

Die Vier Apostel (Y Pedwar Apostol) gan Albrecht Dürer (1471 – 1528)

Cefais gyfle – blynyddoedd yn ôl bellach - i weld y llun hwn yn Munich. 'Roeddwn wedi edrych ymlaen at gael gweld y campwaith yn anad popeth arall yn y ddinas ryfeddol honno nad yw'n brin o gwbwl o ryfeddodau hen a diweddar. Yn wir, brysiais heibio i ddarluniau eraill gwych yn unswydd i weld hwn. Ni'm siomwyd! Ei faint a wnaeth yr argraff gyntaf arnaf. Dau banel ochr yn ochr dros saith troedfedd o uchder a phum troedfedd o led gyda'i gilydd. Yna'r wynebau! Y fath wynebau.

Pwy sydd gennym yma felly? Nid Mathew, Marc, Luc ac Ioan ond Ioan, Pedr, Marc a Paul. Enillodd teitl y darlun ei le er nad oedd Marc yn apostol!

Sylwch ar edrychiad gorfoleddus Marc ... sylwch ar lygad chwith treiddgar Paul ...
sylwch ar feddwl cadarn Pedr ar waith, a sylwch a'r Ioan; cawn yma egni a bywyd!

Gan i Dürer gwblhau'r Pedwar Apostol yn 1526, ddwy flynedd cyn ei farw, ceir yn y llun ffrwyth oes o brofiad. Dyma uchafbwynt gyrfa cawr o artist, a thrwy'r llun cawn gip olwg ar gyfnod allweddol pwysig yn hanes Ewrop.

Bwriad gwreiddiol Dürer oedd i'r ddau banel gael eu gosod y naill ochr a'r llall i ddarlun o Fair, mam Iesu. Ond daeth Dürer yn drwm o dan ddylanwad y Diwygiad Protestannaidd yn 1525. Safai Durer gyda Luther, ac ni pheintiodd y panel canol!

Y prif gymeriadau yn y ddrama yw Ioan a Paul. Mae Ioan mewn coch, a Paul mewn glas golau. Mae'r lliwiau'n fwriadol, fel pob peth arall yn y llun. Mae'r lliwiau'n adlewyrchu cymeriadau Ioan a Paul: coch - ynni, bywyd - a'r glas yn oerach, caletach. Gellid adnabod Pedr a Paul wrth y symbolau traddodiadol - yr allwedd i Pedr a chleddyf i Paul. Gofalodd Durer osod yr Ysgrythurau yn nwylo Ioan, ac yn ddwfn ym mhlygion gwisg Paul. Mae myfyrdod tawel, tangnefeddus Ioan, wrth iddo rannu rhyw wirionedd blasus a'r hen Pedr penfoel yn wych; ac mae edrychiad brawychus treiddgar Paul yn effeithiol tu hwnt.

Mae llygaid Marc yn fyw, yn llawn syndod a rhyfeddod plentyn wedi cael gafael ar gyfrinach ac yn eiddgar i'w rhannu. Does dim byd sentimental amdano, mae yna wefr yma, gwefr yn deillio o wirionedd. Gwefr a grym ac egni disgybl llawen i'w Arglwydd.

Llun peryglus yw hwn. Paul ac Ioan sydd biau'r Gair - mae Pedr, prif apostol y traddodiad Catholig, yn cael ei wthio 'n ôl i'r cysgodion gan Dürer. Mae Ioan yn agor y Gair iddo. Mae Marc yn edrych ar Paul, ond mae Paul yn edrych allan atom ni, yn edrych allan o lawnder argyhoeddiadau crefyddol Dürer a'i gyfnod i mewn i'n presennol ni. Edrychiad yw hwn sydd yn gofyn rhywbeth gennym. Gadawaf i chwi benderfynu beth yn union mae Paul yn gofyn!